**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrh. Jo Stevens
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

15 Ionawr 2026

Annwyl Jo,

**Ymchwiliad Dur**

Rwy'n hynod siomedig nad yw Llywodraeth y DU wedi gallu cynnig Gweinidog i ddod i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor fel rhan o'n hymchwiliad i ddyfodol dur yng Nghymru. Rwy'n cydnabod i chi ddod i'n sesiwn ym mis Tachwedd 2024, a hoffwn ddiolch i chi am hynny. Fodd bynnag, bu datblygiadau sylweddol ers y cyfarfod hwnnw, ac mae'n hanfodol ein bod yn clywed safbwynt Llywodraeth y DU am hyn.

Mae'r tîm clercio wedi bod mewn cysylltiad â'ch swyddfa chi a swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach i geisio trefnu amser addas i chi. Bu’r Pwyllgor mor hyblyg â phosibl o ran dyddiadau. Mae'n rhwystredig iawn nad ydym wedi clywed dim gan yr Adran Busnes a Masnach.

Er fy mod yn gwerthfawrogi eich dymuniad i aros i'r Strategaeth Dur gael ei chyhoeddi cyn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor, mae natur eang ein hymchwiliad yn golygu bod eich mewnbwn yn bwysig ar gyfer llawer o faterion y tu hwnt i'r rhai a ddaw o dan y strategaeth. Mae'n cwmpasu effaith cau ffwrneisi chwyth ym Mhort Talbot ar economïau lleol ac ehangach Cymru a'r DU, y cymorth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi colli eu swyddi, a sut mae datblygiadau diweddar yn Tata yn cyd-fynd â mentrau ehangach y llywodraeth fel y Porthladd Rhydd Celtaidd. Felly, mae ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU yn hanfodol er mwyn i'r Pwyllgor ddod i farn gyflawn a sicrhau bod ein hargymhellion mor gadarn a gwybodus â phosibl.

Gan fod yr amser yn brin tan y diddymiad, rwy'n eich annog chi, neu Weinidog arall yn Llywodraeth y DU, i ailystyried a dod i un o sesiynau ein Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Byddai eich cyfraniad yn amhrisiadwy i'n gwaith ac i ddyfodol diwydiant dur Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrh. Peter Kyle AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi i: Y Gwir Anrh. Peter Kyle AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a Masnach